

**Darganfod
Dadlau
Dewis**

—
**Discover
Debate
Decide**

**Bagloriaeth Cymru: Safon Uwch
Chwarae rôl Pwyllgor Cynulliad**



Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.

Bagloriaeth Cymru: Safon Uwch Chwarae rôl Pwyllgor Cynulliad

Nod: I chwarae rôl ymchwiliad gan bwyllgor.

Amcanion:

01. I ystyried pwnc a thrafod y mater.
02. Creu cwestiynau i dystion arbenigol.
03. Ystyried barn pobl wahanol.
04. Penderfynu ar restr o argymhellion.

Adnoddau:

Taflenni gwaith.

Tasg:

01. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau.
02. Dosbarthu taflen waith i bob grŵp.
03. Mae pob taflen waith yn nodi manylion ymchwiliad gan bwyllgor.
04. Rhaid i bob grŵp chwarae rôl Pwyllgor ac ateb y tri chwestiwn ar y daflen waith.
05. Pob grŵp i adrodd yn ôl ar y dasg.

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Ymchwiliad i bolisi ar amddiffyn plant rhag yr haul mewn ysgolion (Gwanwyn 2012)

Ar 04 Hydref 2011, cafodd Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru y ddeiseb isod gan elusen ganser Tenovus.

“Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu eli haul am ddim i bob plentyn o dan 11 oed yng Nghymru.”

Cyfeiriwyd y ddeiseb at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i'w hystyried. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cynnal ymchwiliad byr i bolisi ar amddiffyn plant rhag yr haul mewn ysgolion, a fydd yn ystyried nid yn unig a yw eli haul ar gael a'r defnydd a wneir ohono, ond hefyd faterion eraill yn ymwneud ag amddiffyn plant rhag yr haul, fel darparu cysgod mewn ysgolion a gwisgo dillad addas y tu allan.

01. Fel Aelodau presennol y Pwyllgor, paratowch 3 chwestiwn er mwyn holi'r tystion a ganlyn sy'n rhoi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor:

- Pennaeth ysgol gynradd.
- Cynrychiolydd grŵp rhieni.
- Dermatolegydd (arbenigwr y croen).
- Cynhyrchwr eli haul.
- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cynrychiolydd o gyngor ysgol.

02. Ystyriwch a oes unrhyw rwystrau rhag defnyddio mesurau i amddiffyn plant rhag yr haul mewn ysgolion.

03. Pa argymhellion a fydddech yn eu gwneud i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn?

Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor.



Y Pwyllgor Menter a Busnes

Ymchwiliad i adfywio canol trefi (Gwanwyn 2012)

Ledled Cymru, gwelir enghreifftiau o “strydoedd mawr gwan a bregus, lle ceir eiddo gwag ac amgylcheddau siopa gwael”.

Yn 2011, dechreuodd y Pwyllgor Menter a Busnes ei ymchwiliad i adfywio canol trefi a chyhoeddwyd ei ganfyddiadau fis Ionawr 2012. Awgrymwyd 21 o argymhellion, ac roedd 12 ohonynt yn annog gweithrediad uniongyrchol gan y Llywodraeth.

01. Ystyriwch yr heriau y mae canol trefi yn eu hwynebu yng Nghymru heddiw, gan ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael yma.

02. Fel Aelodau presennol y Pwyllgor, paratowch 3 chwestiwn er mwyn holi'r tystion a ganlyn sy'n rhoi dystiolaeth gerbron y Pwyllgor:

- Person busnes lleol y mae ei fusnes o dan fygythiad.
- Cynrychiolydd o 'Age Concern Cymru'.
- Cynrychiolydd o'r awdurdod lleol sydd yn gyfrifol am y cynllun mynediad at geir.
- Adwerthwr cyrion tref.
- Archfarchnad sy'n dymuno ymsefydlu yng nghanol trefi.

03. Pa argymhellion y byddech chi'n eu cynnig er mwyn adfywio canol trefi?

Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor.



Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Darparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu (2009-10)

Ym mis Rhagfyr 2009 dechreuodd y Pwyllgor ymchwilio i brofiadau plant (11 oed neu iau) a phobl ifanc (11-18 oed) yng Nghymru, o ran mynediad at fannau diogel i chwarae a chymdeithasu.

Roedd yr ymchwiliad yn ystyried materion sy'n effeithio ar brofiadau chwarae grwpiau penodol o blant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- Plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.
- Plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig ac sydd o gartrefi incwm isel.
- Plant a phobl ifanc anabl.
- Plant a phobl ifanc sy'n perthyn i grwpiau ymylol, fel Cymuned y Teithwyr.

01. Ystyriwch yr heriau y mae'r uchod yn eu hwynebu wrth iddynt geisio cael mynediad at fannau diogel i chwarae a chymdeithasu.

02. Ystyriwch yr holl dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor sydd ar gael yma. Paratowch 3 chwestiwn er mwyn holi'r tystion a ganlyn sy'n rhoi dystiolaeth gerbron y Pwyllgor.

- Sustrans (elusen sy'n ymgyrchu dros drafnidiaeth gynaliadwy).
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Pen-y-Bont ar Ogwr.
- Sgowtiaid.
- Y Dirprwy Weinidog Plant.

03. Yn ystod yr ymchwiliad, nododd 'Rhyl Youth Action' fod tlodi yn atal llawer o bobl ifanc rhag defnyddio adnoddau chwaraeon. Ystyriwch pa argymhellion y byddech chi'n eu gwneud i Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r pwynt penodol hwn.

Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor.



Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru (2012)

Bydd y Pwyllgor yn ystyried:

- Y goblygiadau i Gymru os bydd y cyfrifoldeb dros ganiatáu prosiectau seilwaith mawr ar y tir ac ar y môr yn parhau i fod yn fater sy'n cael ei gadw yn ôl gan Lywodraeth y DU.
- Sut mae hyn yn effeithio ar gyflawni targed Llywodraeth Cymru o sicrhau gostyngiad o 3 % mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr bob blwyddyn o 2011 ymlaen?
- Y ddeiseb 'Na i TAN 8'.

01. Darllenwch y ddeiseb 'Na i TAN 8' sydd ar gael yma. Beth yw prif bryderon y deisebwyr?

02. Fel Aelodau presennol y Pwyllgor, paratowch 3 chwestiwn er mwyn holi'r tystion a ganlyn sy'n rhoi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor:

- Ymgyrchwr sydd yn erbyn ffermydd gwynt ar raddfa fawr ar y tir.
- Cynrychiolydd o Gyfeillion y Ddaear.
- Cynrychiolydd o gyflenwr trydan.
- Prif Weinidog Cymru.

03. A ddylid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer ffermydd mawr ynni gwynt i Lywodraeth Cymru?

Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor.

